Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Rotherslade House**

**Abertawe**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Rotherslade House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | M&D Care Operations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers newid yr endid cyfreithiol o M&D Care Ltd i M&D Care Operations Ltd (Wedi'i gofrestru ers 19 Medi 2023) |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae gan ‘Rotherslade House’ dîm o staff sy'n adnabod y bobl yn dda. Mae'r tîm yn cynnwys Unigolyn Cyfrifol a gafodd ei benodi'n ddiweddar ac sy'n adnabod y gwasanaeth yn dda a rheolwr dros dro newydd sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael dewis ac i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu bodloni. Er nad yw'n ofynnol i'r gwasanaeth ddarparu'r Cynnig ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd, gallai'r darparwr edrych ar ffyrdd o fodloni'r dewis hwn os bydd angen.

Mae'r ddogfennaeth gofal yn gywir ac yn gyfredol ac yn cynnwys cynlluniau personol ac asesiadau risg. Maent yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl yn unol â'r canlyniadau llesiant cenedlaethol.

Mae trefniadau recriwtio da ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn Rotherslade House. Mae trefniadau goruchwylio a chymorth da ar waith ar gyfer y tîm yn ogystal â phrosesau diogelu a chwythu'r chwiban da iawn. Mae'n amlwg bod diwylliant agored a chadarnhaol yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod unigolrwydd y bobl yn cael ei gydnabod a'u bod yn cyflawni eu canlyniadau yn y ffordd yr hoffent wneud hynny. Caiff y pethau bach sydd o bwys i'r bobl eu parchu a'u gwerthfawrogi. Roedd yn ymddangos fod y bobl y gwnaethom gwrdd â nhw yn hapus ac yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau gofal a chymorth y bobl a chanlyniadau'r bobl y gwnaethant eu nodi eu hunain. Gwelsom y gwasanaeth yn paratoi ar gyfer cynnal bore coffi a drefnwyd gan unigolyn er mwyn codi arian i elusen.

Caiff preifatrwydd y bobl ei barchu. Wrth gwrdd â phobl yn eu fflatiau unigol, bydd y staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn hapus i groesawu ymwelwyr yn gyntaf. Gwelsom hefyd y staff yn cadarnhau â'r bobl eu bod yn fodlon trafod eu gofal a chael meddyginiaeth o'n blaen.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl. Caiff risgiau eu nodi mewn cynlluniau personol ac asesiadau risg. Mae'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon ac yn ymwybodol o'r prosesau diogelu a pholisi chwythu'r chwiban. Mae diwylliant agored yn amlwg ac yn cael ei annog. Mae protocolau ar waith i sicrhau na chaiff y bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau penodol o bosibl, eu cyfyngu na'u hamddifadu o'u rhyddid yn ddiangen. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o awdurdodiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gwybodaeth dda amdanynt a'r ffordd o gefnogi'r bobl gan sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl. Mae angen cyflwyno hysbysiadau i AGC pan gaiff ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu cwblhau.

Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a gwrandewir arnynt. Ymgynghorir â'r bobl am eu harferion a'u dewisiadau drwy gydol eu dydd. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd misol a'u hadolygiadau chwarterol er mwyn dangos a ydynt wedi cyflawni eu canlyniadau a nodi'r hyn yr hoffent ei newid neu barhau ag ef.

Gall y bobl gael gafael ar y wybodaeth gywir pan fydd ei hangen arnynt. Mae Datganiad o Ddiben cyfredol a Chanllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth ar gael, gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen. Roedd y staff yn cyfathrebu'n dda â'r bobl a gwelsom fod polisi drws agored ar waith lle roedd y bobl yn mynd i'r swyddfa i siarad â'r staff os oeddent am wneud hynny.

Caiff gofal a chymorth cywir ei roi i'r bobl yn ôl yr angen a chaiff gweithwyr proffesiynol eu cynnwys ac fe ymgynghorir â nhw. Gwelsom dystiolaeth o hyn o fewn cofnodion adolygu a dogfennaeth o apwyntiadau meddygol a phasbortau iechyd y bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl. Dywedodd y staff wrthym, *"They have just got their own way of living and they enjoy their way of living,"* ac *"We are massive at promoting independence – everyone deserves independence"*.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn adlewyrchu amgylchiadau'r bobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn gywir. Gwelsom ddisgrifiadau manwl iawn o hanes meddygol a chymdeithasol y bobl a'r ffordd y mae eu cydberthnasau ag eraill yn effeithio arnynt. Mae'r adrannau '*About Me*' a '*Where I would like to be*' yn adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran gofal a chymorth y bobl ac mae eu mewnbwn yn ganolbwynt i'r cynllun cymorth sydd ar waith. Gwelsom y bobl yn cyflawni eu canlyniadau o ran ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol a hamdden yn y gymuned.

Gwneir atgyfeiriadau amserol at weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl. Mae'r bobl a'u gweithwyr iechyd perthnasol yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau chwarterol. Caiff cyfarfodydd misol eu cynnal gyda'r bobl a'u gweithwyr allweddol er mwyn nodi'r hyn sy'n bwysig i'r bobl a'r hyn sy'n gweithio'n dda a phennu a yw'r canlyniadau yn cael eu cyflawni. Gwelsom gofnodion da iawn o'r cyfarfodydd adolygu. Dywedwyd wrthym fod gan y bobl eiriolwyr a'u bod yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd adolygu. Mae angen i fanylion yr eiriolwyr hyn a'u gwahoddiadau i fynychu'r cyfarfodydd gael eu cofnodi'n gyson yn y ddogfennaeth gofal.

Mae systemau diogel ar waith i reoli meddyginiaethau. Gwelsom gynlluniau meddyginiaeth manwl a oedd yn nodi lefel y cymorth sydd ei hangen ar y bobl yn glir. Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu rhoi yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi yng nghynlluniau personol y bobl a'r cofnodion rhoi meddyginiaeth. Caiff gwiriadau eu cynnal ar y meddyginiaethau'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod y nifer priodol ar gael.

Mae cyfathrebu yn rhan annatod o'r gofal a'r cymorth a gaiff y bobl. Gwelsom gynlluniau personol manwl ar gyfer y broses gyfathrebu. Roedd y rhain yn cynnwys canlyniadau cyfathrebu'r bobl a'r adnoddau a fyddai'n helpu'r bobl i gyfathrebu. Mae'r rheolwr a'r staff yn Rotherslade House yn annog y bobl i fod yn agored am eu dymuniadau ac yn rhoi'r cymorth angenrheidiol iddynt wireddu'r dymuniadau hyn lle y bo'n bosibl. Gwelsom fod y staff yn parchu'r pethau bach sydd o bwys i'r bobl a chaiff hyn ei ystyried yng nghanlyniadau'r bobl. Mae'r ymdeimlad o gyflawniad y mae'r bobl yn ei deimlo'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith eu bod yn hapus yn byw yn Rotherslade House.

## Yr Amgylchedd

Mae gwiriadau diogelwch a chynnal a chadw yn cael eu cynnal i sicrhau y caiff y risgiau i iechyd a diogelwch eu nodi a'u lliniaru. Gwelsom y cofnodion gwasanaethu cyfleustodau nwy blynyddol ar gyfer yr ardaloedd byw unigol. Caiff gwiriadau diogelwch tân a legionella eu cwblhau'n rheolaidd ac roedd copïau ar gael o'r asesiadau risg a'r cynlluniau gweithredu diweddaraf. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Gwelsom hefyd asesiadau risg tân manwl iawn a oedd wedi'u personoli ac asesiadau risg smygu/fepio a oedd yn nodi sut y gellir rheoli a lleihau risgiau mewn amgylchiadau o'r fath. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ar y larwm tân a bod ymarfer gwagio'r adeilad yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau ymarfer gwagio'r adeilad llawn o leiaf unwaith y flwyddyn. Gwelsom fod cliciedau rhyddhau magnetig ar rai o'r drysau tân a oedd yn cau yn awtomatig wrth i'r larwm tân ganu. Nodwyd gennym fod un o ddrysau'r gegin yn cael ei ddal ar agor ac archebodd y rheolwr glicied rhyddhau magnetig ar gyfer y drws hwn yn ystod yr ymweliad arolygu.
Gwnaethom nodi fod cynhyrchion a gaiff eu rheoleiddio gan COSHH (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2022) yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo mewn ystafell a gaiff ei chloi. Gwnaethom hefyd nodi bod peiriant sychu dillad yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell hon yn ôl yr angen. Gwnaethom gynghori'r darparwr i sicrhau bod y cynhyrchion yn cael eu storio ar y tymheredd cywir pan fo'r peiriant sychu dillad yn cael ei ddefnyddio.

Mae gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn amgylchedd lle y caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae lawnt uwch ac ardal batio gaeedig o flaen y cartref a chânt eu defnyddio yn aml, yn enwedig pan fo'r tywydd yn ffafriol. Yng nghefn y cartref, mae lloches smygu a siediau a ddefnyddir yn ogystal â gardd uwch. Mae'r ardal hon wedi cael ei hamgylchynu gan nad yw'n ddiogel i'r bobl ei defnyddio. Mae'r allanfeydd tân yng nghefn yr adeilad yn ddiogel i'w defnyddio os oes angen yn unol ag argymhellion yn dilyn yr asesiad risg tân diweddaraf. Roedd rhai o'r bobl yn fodlon ar ddangos eu hardal fyw i ni ac roeddent yn falch o'r dodrefn newydd roeddent wedi eu prynu'n ddiweddar. Gwnaethom nodi fod ôl traul mewn rhai ardaloedd a bod angen rhoi décor newydd yno a'u diweddaru; ond rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod y gwasanaeth yn gartref i'r bobl a'u bod yn defnyddio pob ardal ohono. Dywedodd y staff wrthym, *“The environment needs to change – it will happen*” a *“The building could improve”.* Gwelsom asesiad risg Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr amgylchedd a oedd wedi cael ei gwblhau gan ddarparwr y gwasanaeth a chaiff ei ddiweddaru a'i adolygu yn unol â phrosesau sicrhau ansawdd y darparwr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae llinellau atebolrwydd clir yn y cartref gyda threfniadau goruchwylio effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref o leiaf bob tri mis. Caiff cofnodion da eu llunio o'r adborth a gesglir gan y bobl a staff y gwasanaeth. Mae adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis ar gael. Rydym wedi awgrymu y dylai'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau na chaiff unrhyw un ei enwi yn yr adroddiad. Mae'r rheolwr newydd wedi gweithio'n galed i greu diwylliant cadarnhaol gan sicrhau bod cyfathrebu'n agored yn cael ei annog. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd ganddynt unrhyw bryderon a'u bod o'r farn bod yr Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr a'r cyfarwyddwyr yn gefnogol iawn a'i bod yn hawdd iawn mynd atynt. Nid ydynt yn oedi dim os ydynt am godi pryderon ac maent o'r farn bod y sefydliad yn gefnogol o'r hyn sydd orau i'r bobl. Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith. Dywedodd y staff wrthym, *"It is a really good atmosphere to work in and the change in the culture is massive"* ac *"I feel listened to."*

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y staff yn addas i ddarparu gofal a chymorth a'u bod yn cael y lefel ofynnol o hyfforddiant. Caiff cofrestriad proffesiynol â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal, ei fonitro. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau, fel gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael budd mawr o'r hyfforddiant y maent wedi'i gael. Gwelsom fod staff y cartref yn cydymffurfio'n llawn â'r hyfforddiant 'gofynnol' a bod hyfforddiant ychwanegol, fel hyfforddiant ar ofal personol, awtistiaeth a hyfforddiant sy'n benodol i anghenion y bobl hefyd yn cael ei ddarparu. Mae'r cyfnod sefydlu yn cynnwys pythefnos o hyfforddiant cyn i bobl ddechrau gweithio yn y lleoliad gofal a dau ddiwrnod o gysgodi staff profiadol. Gwelsom gofnodion o sesiynau goruchwylio un i un effeithiol a chaiff y sesiynau hyn eu darparu bob mis i ddechrau ac yna o leiaf bob chwarter. Dywedodd y staff wrthym, *"They are very flexible to fit around my other commitments".* Mae'r gwasanaeth parhau i recriwtio er mwyn sicrhau bod y tîm yn cynnwys y nifer gofynnol o staff. Yn y cyfamser, caiff y lefelau staffio eu cynnal gan y tîm o staff presennol.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn annibynnol wrth ymdrin â'u harian lle y bo'n bosibl. Gwelsom fod y staff yn gwirio gwariant a balans ariannol y bobl er mwyn sicrhau bod eu harian yn cael ei ddiogelu.

Mae'r wybodaeth am y gwasanaeth yn gyfredol ac ar gael i'r bobl. Yn ogystal â'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth, gwelsom nifer o bolisïau a oedd yn gyfredol, yn llawn gwybodaeth ac yn cyfeirio at ddeddfwriaeth gysylltiedig. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd. Dywedodd y rheolwr wrthym, *"One to one is great, but saying things out loud in front of the whole team helps build morale as a team".*
Roedd y rheolwr yn gadarnhaol am y broses arolygu, gan groesawu unrhyw adborth a dysgu fel rhan o'r broses.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/10/2024